# Fferm Wynt Gaerwen.
# Cyfarfod y Cyngor Cymuned a RWE,
# nos Fercher 5ed o Orffennaf yn Neuadd Sarnau.

**Presennol:** Eifion Davies (cadeirydd), Dewi Pritchard, Maldwyn Jones, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwenda Morris, Gwenda Evans, Rita Jones, Meilir Jones, Alwyn Jones, Gary Thomas a'r clerc.
RWE – Arfon Edwards, Meilir Ceredig, Jess.
**Ymddiheuriadau:** Gwynedd Jones ac Iolo Evans.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd:**

- Ar hyn o bryd mae naw tyrbin yn cael eu hystyried ar gyfer y safle. Dim ar dir Cymuned Llandderfel oherwydd y gylfinirod.
- Bydd saith o'r rhain yn aros gydag uchder blaen y llafn o hyd at 180m gyda dau o'r rhain nawr i fod hyd at 200m. Golau yn cael gosod ar tua 4.
- Ni fyddant bellach yn archwilio potensial ynni solar ar y safle. (oherwydd y mawn, gyflenwad dŵr a'r effaith y fydde yn cael ar ddefnydd y tir gan ffermwyr a'r bobl leol).
- Mae dwy flynedd o ddata arolygon adar bellach wedi'u casglu.
- Mae Arolygon Hydrolegol a Mawn wedi'u cwblhau.
- Mae Arolygon Cynefinoedd ac Ecoleg bellach wedi'u cwblhau
- Mae ymgynghori pellach gyda CADW ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd a Phowys yn parhau
- Mae cyfnod Ymgynghori Cyn Ymgeisio Ffurfiol yn cael ei ystyried ar gyfer Hydref 2023.
- Cario'r trydan i lawr i gyfeiriad y A494 – o dan ddaear gymaint a gellir neu ar bolion, dim pylons.
- Ffordd mynediad o'r A494, Glanrafon.
- Oes y tyrbin's – tua 30 mlynedd.
- Efallai bydd safle stori bateries – is-orsaf\A yn y goedwig gerllaw.
- Llythyrau wedi mynd allan i gartrefi lleol yn holi pwy sydd ar gyflenwad dŵr eu hunain. Mae'r cynllun yn ceisio osgoi lleoliadau lle mae cyflenwad dŵr preifat.